## Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA518 - Rheoliadau'r Bwrdd Marchnata Llaeth (Cymru a Lloegr) (Dirymu) 2015

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu tri darn o is-ddeddfwriaeth 'darfodedig' o ganlyniad i'r Her Biwrocratiaeth. Mae'r offerynnau dan sylw yn ymwneud â'r Bwrdd Marchnata Llaeth gyfer Cymru a Lloegr - yn arbennig ag anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i'w ad-drefnu a dirwyn ei faterion i ben. Mae'r rhain yn offerynnau diangen, gan fod y Bwrdd wedi'i ddiddymu ar 31 Ionawr 2002 (gan OS 2002/128).

**Gweithdrefn**: Negyddol Cyfansawdd

### 1. Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 21.2(ix), sef nad yw'r offeryn wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac maent yn ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dau dŷ Senedd y DU. Maent felly yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig.

### 2. Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 3. Ymateb y Llywodraeth

Bydd y Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn nau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Gan y bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn craffu ar y Rheoliadau, ni chredir ei bod yn rhesymol ymarferol i wneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

## 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd technegol yn adran 1 uchod.